

❖ SIMEON

Dwi ddim yn deall rhai pobl. Maen nhw'n dweud mai rhywbeth ar gyfer plant ydi'r 'Dolig. Glywsoch chi am Simeon? Mae 'na sôn amdano yn Luc Pennod 2. Hwn ydi'r hen ŵr sy'n dweud ei fod wedi cael addewid na fyddai'n marw cyn iddo weld y Meseia. Mae'n ddarlun tlws iawn; oherwydd er ei fod yn hen, mae 'na ryw irder yn ei enaid sy'n gweddu'n llwyr i neges y Nadolig. Dyn llawen ydi Simeon.

Mae'n dweud tri pheth pwysig iawn wrthym am Efengyl Iesu Grist.

Mae wedi ei pharatoi gan Dduw. Does dim rhaid darllen y Beibl yn hir i weld hyn. Cawn wybod am fwriad Duw cyn llunio'r byd i anfon ei Eneiniog i fyw ac i farw er mwyn i ni gael byw. Mae'r Arglwydd Iesu Grist yn aml yn ei ddamhegion yn pwysleisio bod y wlad eisoes wedi ei pharatoi, ac mai'r cwbl sydd angen i ni ei wneud yw derbyn y gwahoddiad.

Dywed Simeon hefyd fod yr Efengyl hon yn oleuni i oleuo'r cenedloedd. Un o'r pethau a gysylltw'n â'r Nadolig yw goleuni – y seren, a'r coed Nadolig, a'r canhwyllau. Daeth Iesu Grist i'n byd i'n goleuo ynglŷn â'n gwir gyflwr ac i ddangos i ni ein hangen am faddeuant a gras. Mae'n goleuo i ni hefyd y neges am y groes, fod Duw yn caru pechaduriaid cymaint nes iddo roi Mab ei fynwes yn aberth dros eu pechodau.

Dywed hefyd fod yr Efengyl hon yn rhannu pobl – yn gwmp i rai ac yn gyfodiad i eraill. Bydd rhai o hyd yn elynion croes Crist ac yn cael eu tramgwyddo gan neges ganolog yr Efengyl. Mae hynny wedi digwydd erioed. Ond i eraill, mae'r Efengyl hon yn ogoniant yn eu bywyd. Wedi gweld yr Iesu, mae Simeon yn gorffwys ar Efengyl sy'n rhoi tangnefedd. 'Yr awr hon, Arglwydd, y gollyngi dy was mewn tangnefedd.' (BWM) Dyma hyder y Cristion hefyd, bod Iesu Grist yn cadw'i air: 'Yr hwn a ddêl ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim.'

Beth am i ni ddilyn esiampl Simeon? Yn siwr ddigon, roedd ganddo lawer o gwestiynau na chafodd ateb iddynt, ond fe wnaeth y peth syml yna – fe gymerodd Iesu Grist i'w freichiau a'i galon. Yn y diwedd dyma beth yw Cristion – rhywun sy'n derbyn Iesu Grist yn Waredwr ac yn Arglwydd.

Dewi Tudur